

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**  
**Fforwm Derbyn i Ysgolion (MS Teams)**  
**30 Tachwedd 2020**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Lis Burnett, Mike Matthews, Lisa Lewis, M Dacey, A Robertson, A Ricketts, Rhian Andrew, Andrew Hennessey, C Thomas, S Owen

**YMDDIHEURIADAU:** Fiona Greville, Jane Werrett, S Mawhinney

| <b>EITEM</b> | <b>MATER</b>  | <b>CAMAU I'W CYMRYD</b>   | <b>Aelod</b> |
|--------------|---|---|--------------|
| 2            | Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol                                  | Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir.   |              |
| 3            | Materion yn codi  | Dim   |              |
| 4            | Adroddiad Blynyddol Drafft y Fforwm Derbyn i Ysgolion           | Aeth MM drwy'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn ddogfen statudol y mae'n rhaid ei chwblhau'n flynyddol a'i hanfon at Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi adroddiad ar effeithiolrwydd trefniadau derbyn i ysgolion. Gwnaeth AR sylw am lwyddiant y trefniadau cydlynol i ysgolion a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru (EyNg), mae ysgolion yn hapus iawn gyda'r trefniadau hyn. Diolchodd AR am yr adborth. Mae St Richard Gwyn yn cymryd rhan yn y cynllun derbyn cydlynol yng nghylch derbyn Medi 2021. Bydd trefniadau cydlynol yn sicrhau nad yw rhieni'n cadw mwy nag un lle mewn ysgol sy'n rhoi ansicrwydd i ysgolion wrth reoli derbyniadau i ysgolion. Croesawyd ymagwedd gydlynol. Cymeradwywyd yr adroddiad. |              |
| 5            | Ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer 2022/2023 | Amlinellodd MM y broses ymgynghori ar drefniadau derbyn ar gyfer 2022/23 i ddechrau ym mis Rhagfyr 2020. Dim newidiadau o ran y polisi derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio. Mae adolygiad dalgylch ysgol uwchradd yn cael ei gynnal yn rhan o'r ymgynghoriad i gydbwysu'r galw am leoedd i'w trafod yn yr eitem nesaf ar yr agenda.   |              |

| EITEM | MATER                    | CAMAU I'W CYMRYD  | Aelod |
|-------|--------------------------|---|-------|
| 6     | Adolygiad Dalgylch Ysgol | <p>Ystyrir bod angen adolygu dalgylchoedd uwchradd gan fod y Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn ystod cam trosglwyddo blwyddyn 6 sy'n berthnasol yn arbennig i ardal y Barri. Mae angen cydbwysu niferoedd disgyblion mewn dalgylchoedd o'u cymharu â chapasiti ysgolion. MM Mae datblygu tai ar raddfa fawr a sefydlu addysg rhyw gymysg yn y Barri wedi cael effaith ar y galw am leoedd mewn ysgolion, gyda Chohortau mawr yn pontio i addysg uwchradd hyd at 2024/25 a chwypm wedi hynny. Amlinellodd LL y cynnig i sefydlu dalgylch deuil ar gyfer Ysgol St Cyres am gyfnod o dair blynedd yn dechrau 2022/23 i reoli'r galw o amgylch y Barri a'r ardal gyfagos. Byddai'r cynnig yn cynnwys dalgylch Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn nalgylch Sant Cyres. Byddai Pencoedtre yn parhau i wasanaethu ei dalgylch presennol. Mesur dros dro tan 2024/25. Mae dileu'r system fwydo o fis Medi 2020 wedi cael effaith, nid yw rhieni bellach yn cael mynediad at ysgolion uwchradd i'w plant yr oeddent yn gobeithio amdanynt wrth eu hanfon i ysgolion cynradd bwydo o dan drefniadau blaenorol.</p> <p>Cynnig arall o ran dalgylch fyddai i drosglwyddo ardal y Rhws i ddalgylch Ysgol Sant Baruc o Ysgol Dewi Sant. Mae'r pwysau am leoedd ysgol yn nalgylch Ysgol Dewi Sant wedi bod ar gynnydd. Cafodd y Cyngor fwy o geisiadau gan blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2020 a chafodd plant o'r dalgylch eu gwrthod. Mae Ysgol Sant Baruc yn ehangu i fod yn ysgol dau ddosbarth mynediad o fis Medi 2022 i allu derbyn plant o ardal y Rhws. Byddai hyn yn lleihau'r pwysau a'r galw am lefydd yn Ysgol Dewi Sant. Mae'r niferoedd sy'n mynd i mewn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r Rhws wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf ers iddi newid o wasanaethu Ysgol Sant Curig yn 2015, mae'r adborth wedi awgrymu ei bod yn ffordd bell i blant deithio. Gofynnodd RA beth yw'r meini prawf agosrwydd ar gyfer dyrannu lleoedd, ai dyna'r ysgol bellaf o'r ysgol nesaf agosaf. Ymatebodd LL wrth asesu yn ôl agosrwydd, mae gan y rhai sy'n byw agosaf at ysgol flaenoriaeth. Mae hyn wedi newid yng nghylch Derbyn 2020. Ymgynghoriad i ddechrau ar 14 Rhagfyr 2020 ac ar gael ar wefan y Cyngor. Daeth yr</p> |       |

| EITEM | MATER                 | CAMAU I'W CYMRYD  | Aelod |
|-------|-----------------------|---|-------|
|       |                       | ymgyngoriad i ben ar 8 Chwefror 2021.<br>Sylwadau pellach i MM.   |       |
| 7     | Anodd eu Lleoli (H2P) | <p>Roedd Martin Dacey, Swyddog Arweiniol Cynhwysiant Cymdeithasol a Llesiant yn bresennol yn y fforwm a rhoddodd gyflwyniad ar blant Anodd eu Gosod.</p> <p>Roedd y Cyngor yn gweld nifer o atgyfeiriadau am symudiad wedi'i reoli a phlant Anodd eu Gosod. Yn aml, cyfeiriwyd y rhain drwy swyddogion unigol. Mae protocol symudiad wedi'i reoli wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ond roedd opsiynau lleoli yn dod yn fwyfwy anodd. Roedd angen dull gweithredu cydlynol.</p> <p>Treialodd y Cyngor Banel Iechyd Meddwl Emosiynol Cymdeithasol (PIMEC) ar gyfer 2019/20 i'w adolygu wedyn. Nod y Panel yw cyflawni'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol yn Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 i wneud trefniadau ar gyfer darparu darpariaeth AHY addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt bellach yn gallu mynychu'r ysgol am unrhyw reswm, gan gynnwys salwch a diarddel (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). Byddai'r Panel yn ystyried lleoli disgyblion ag anghenion penodol mewn darpariaethau arbenigol y tu allan i'r ysgol (OOST) yn yr ALI megis CAA Stryd Fawr, Loft Gladstone, Y Daith (gan gynnwys Y Daith AHY), OOST.</p> <p>Mae'r panel aelodaeth yn cynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol, o swyddogion i gynrychiolwyr ysgolion, sy'n cyfarfod bob 4 wythnos i drafod atgyfeiriadau. Amlinellwyd y broses atgyfeirio i PIMEC i'r fforwm.</p> |       |

| EITEM | MATER                                   | CAMAU I'W CYMRYD   | Aelod |
|-------|---|--|-------|
|       |   | <p>Mae trefniadau wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r broses sydd wedi'i sefydlu'n dda, yn parhau i gynnig i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol ac sydd â phresenoldeb gwael, y cyfle i ddechrau o'r newydd. Mae symudiadau wedi'u rheoli yn parhau i ddarparu ateb arall yn lle gwaharddiadau parhaol. Crëwyd PIMEC i hwyluso lleoedd mewn ysgolion ar gyfer y disgyblion hynny a ystyriwyd yn flaenorol yn 'anodd eu gosod' am amryw resymau. Diolchwyd i Martin Dacey am y cyflwyniad.</p>   |       |
| 8     | Diweddariad ar y cylch derbyn blynyddol | <p>Clywodd y Fforwm grynodedd blwyddyn academaidd 2019/2 o dderbyn i ysgolion, data apêl a chynnydd ar y cynllun trefniadau derbyniadau cydlynol a grybwyllwyd yn flaenorol. Rhoddodd MM y wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau ceisiadau uwchradd mis Medi 2021 pob ysgol Uwchradd. Daeth y broses i ben ar 27 Tachwedd 2020. Y nod oedd cyrraedd mor agos â phosibl i 100% o ran ceisiadau drwy gysylltu â rhieni ac ysgolion yn rheolaidd a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Canlyniad ardderchog gan y tîm derbyn, gyda 99.4% o rieni'n gwneud cais mewn da bryd, ac phob clod haeddiannol i'r tîm yn hynny o beth. Gwnaeth LL a LB ategu'r teimladau hyn. Bydd yr ymgyrch lwyddiannus yn sicrhau y bydd yr holl rieni yn cael cynnig lle mewn ysgol ar y dyddiad cynnig sef 1 Mawrth 2020. Felly, bydd yr awdurdod yn gallu nodi unrhyw broblemau mynediad posibl yn gynnar a gall ysgolion uwchradd baratoi'n dda ar gyfer niferoedd ym mis Medi 2021.</p> <p>Agorodd ceisiadau i'r Dosbarth Derbyn yn 2021 ar 6 Tachwedd ac mae nifer fawr o geisiadau eisoes wedi'u derbyn, yn enwedig gan yr ysgolion poblogaidd arferol ym Mhenarth a'r Bont-faen. Mae'r broses derbyniadau meithrin yn agor ar 25 Ionawr 2021</p> |       |
| 11    | Dyddiad y cyfarfod nesaf                | 11 Mehefin 2021  |       |
|       | Unrhyw Fater Arall                      | Dywedodd MM fod C Kynaston wedi ymddeol ac nad yw bellach ar y fforwm. Bydd angen dod o hyd i rywun arall fyddai'n addas i gynrychioli Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro. MM i gysylltu â staff cymorth i lywodraethwyr.  |       |